# Hydref 2023 / Autumn 2023 – Planning for the theme – Myself in the Hendy



**Iechyd a Lles / Health and Well-being- Pwy sydd fel fi?** I ddechrau bydd y plant yn dysgu am fannau addoli gan gynnwys Cristnogaeth. Byddant yn cymryd rhan mewn trafodaethau dosbarth am eu gwerthoedd a'u credoau. Byddant yn cael y cyfle i archwilio ystod o arteffactau sy'n gysylltiedig â'r gwahanol grefyddau. Yn ystod y cwestiwn mawr bydd y disgyblion yn dysgu am eu hawliau ac yn datblygu ymwybyddiaeth o sut mae pob hawl yn effeithio arnyn nhw. Ar ôl dysgu am eu hardal leol, bydd y pant yn cael cyfle i fod yn entrepreneuriaid ac i werthu ysgytlaeth o'r Hendy I'w teulu a'u ffrindiau. Byddant yn datblygu ymwybyddiaeth o arian trwy chwarae a byddant yn ddechrau adnabod a defnyddio arian 1c, 2c, c, 10c, 20c, 50, £1 a £2. Trwy weithgareddau amrywiol bydd disgyblion yn cael y cyfle i ddatblygu eu dealltwriaeth o ofalu am yr amgylchedd.



***Y Celfyddydau Mynegiannol / Expressive Arts- Pwy sy'n ofni pwy?*** Bydd stori Merched Beca yn cael ei chyflyno i'r plant, a byddan nhw'n dysgu am effaith y terfysgoedd ar ein hardal leol. Byddant yn dechrau gwrando ar y stori ac yn defnyddio symudiadau i'w hailadrodd gan ddefnyddio dull 'Pie Corbett.' Yn ystod y gweithgareddau bydd y disgyblion yn creu banc o eiriau fel dosbarth gan ddefnyddio geirfa ac ymadroddion o'r stori, a bydd hyn yn cyfannu at ail-greu'r stori. Byddant yn dysgu am batrymau ac yn Dilyn ac yn creu sgôr graffeg. Yn ogystal, byddant yn defnyddio offerynnau i ddisgrifio golygfa o'r stori. Byddwn yn galluogi'r plant i ddilyn cyfarwyddiadau a chreu dawns yn ailadrodd y stori. Bydd disgyblion yn dysgu am artistiaid lleol ac enwog o Gymru gan gynnwys Rhys Padarn a Kyffin Williams ac yn efelychu darn o'u Gwaith celf. Byddwn yn archwilio'r paentiad ac yn mynegi ein barn yn cynnwys ein hoffterau a beth fydden nhw'n ei newid. Bydd y disgyblion yn cael cyfle i osod cwestiynau a chyfweld a Rhys Padarn a bydd defnyddio TGCH fel modd o gyfathrebu gyda'r artist.



***Y Dyniaethau / Humanities –A allwn ni grwydro ein pentref trwy amser?*** *Cyflwyno ardal leol y plant a'i hannog I ddisigrfio eu cartef. Cymharu cartrefi dddoe a heddiw. Trafod nodweddion gan ddefnyddio ystod o wahanol ffurf i ddechrau brawddeg a defnyddio ansoddeiriau. Bydd y plant yn creu map o'r pentref ac yn archwilio cyfeiriadau gan ddefnyddio'r Beebot. Bydd y plant yn cael y cyfle I archwilio gwahanol fathau o dywydd ac yn deall effaith tywydd eithafol ar ein hinsawdd. Byddant yn cymharu gwahanol fathau o drychinebau tywydd gyda tywydd ni yng Nghymru. Bydd y disgyblion yn dysgu am ein afon leol ac effaith sbwriel ar ein hamgylchedd. Byddant yn deal pwysigrwydd casglu sbwriel ac ailglychu yn ein hardal leol,*



***Gwyddoniaeth a Thechnoleg / Science & Technology- Beth sy'n gwneud ty da? Yn y cwestiwn mawr hyn*** bydd y disgyblion yn dysgu am ba wrthrychau sy'n arnofio ac yn suddo. Byddant yn cymryd rhan mewn ymchwiliad dosbarth am ddwysedd trwy gymharu geiriau fel 'cryfach' a 'trymach'. Bydd disgyblion yn cael profiad o ddylunio cwch wrth archwilio gwahanol ddefnyddiau ac yn trafod pa ddefnyddiau mae'n nhw'n meddwl sy'n addas ar gyfer eu cwch. Yna byddant yn cymryd rhan are ein afon leol ac yn cyfrifo'r pellter teithiodd eu cwch. Bydd y disgyblion yn dysgu am effaith yr argyfwng costau byw ac yn deall pwysigrwydd bod yn gynaliadwy ac arbed ynni. Gyda'i gilydd bydant yn creu cuddfan sy'n gynaliadwy ac yn addas ar gyfer pob math o dywydd a byddant yn ysgrifennu set o gyfarwyddiadau yn egluro hyn.

***Y Pedwar Diben / Four Purposes –***

*Dysgwyr uchelgeisiol, galluog sydd:*

- ***yn cwestiynu ac yn mwynhau datrys problemau a defnyddio technolegau digidol yn greadigol i gyfathrebu, canfod a dadansoddi gwybodaeth** trwy eu herio i greu cwestiynau cyfweliad i Rhys Padarn.*
- ***Yn gallu defnyddio rhif yn effeithiol mewn gwahanol gyd-destunau** wrth i'r disgyblion ddatblygu ymwybyddiaeth o arian trwy werthu ysgytlaeth i'w ffrindiau.*

*Unigolion iach a hyderus sydd:*

- ***Gwybod sut i ddod o hyd i'r wybodaeth a'r gefnogaeth i gadw'n ddiogel ac yn iach** – trwy ddatblygu dealltwriaeth o'u hawliau a sut y gall hyn gefnogi a chadw'n ddiogel ac yn iach*
- ***Cymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol a bod â'r hyder i gymryd rhan mewn perfformiadau** – creu eu dawns eu hunain yn adrodd stori Merched Beca*
- ***Bod â gwerth sicr ac yn sefydlu eu credoau ysbrydol a moesegol** – trwy ddysgu am wahanol fannau addoli a chymryd rhan mewn trafodaeth ddosbarth am eu gwerthoedd a'u credoau*

*Cyfranwyr mentrus, creadigol sydd:*

- ***Cysylltu a chymhwyso eu gwybodaeth a'u sgiliau i greu syniadau a chynhyrchion** – trwy ddod yn entrepreneur a gwerthu ysgytlaeth i deulu a ffrindiau o'r Hendy*
- ***Arwain a chwarae rolau gwahanol mewn timau yn effeithiol ac yn gyfrifol** – cymryd rhan mewn ymchwiliad dosbarth i gael gwell dealltwriaeth o suddo ac arnofio*

*Dinasyddion moesegol, gwybodus sydd:*

- ***Darganfod, gwerthuso a defnyddio tystiolaeth wrth ffurfio safbwyntiau:** bydd disgyblion yn cymryd rhan mewn dylunio eu cwch eu hunain ac yn gwerthuso eu darganfyddiad trwy ddefnyddio geiriau fel suddo, arnofio, cyflymder*
- ***Deall ac arfer eu cyfrifoldebau a hawliau dynol a democrataidd** – trwy ddatblygu eu dealltwriaeth o'u hawliau a sut y gall hyn effeithio arnynt*
- ***Yn wybodus am eu diwylliant, cymuned, cymdeithas a'r byd, heddiw ac yn y gorffennol** – trwy ddatblygu eu dealltwriaeth o'r gwahanol fannau addoli a'u gwerthoedd a'u credoau.*
- ***Dangos eu hymrwymiad i gynaliadwyedd y ffatri** – datblygu eu dealltwriaeth o ailgylchu trwy gymryd rhan mewn codi sbwriel yn yr ardal leol a datblygu eu hymwybyddiaeth o'r argyfwng byw*

Carwsel Darllen, Pie Corbett, Chatt, Seinyddol, Ymarfer Corff/Gemau, Cymraeg / *Reading Carousel, Pie Corbett, Chatt, Phonological awareness activities, P.E., games.*